Datganiad Newyddion / News Release

MR 1442

Ionawr 29, 2021

I'w Ryddhau

Dysgu ar-lein yn parhau ar gyfer ysgolion Powys

Mae Cyngor Sir Powys wedi dweud y bydd ysgolion ar draws y sir yn parhau i ddysgu ar-lein tan hanner tymor mis Chwefror.

Heddiw (dydd Gwener, 29 Ionawr), cadarnhaodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg y bydd y trefniant presennol ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn parhau yn ei le tan ddiwedd hanner tymor.

Bydd ysgolion yn dal i fod ar agor ond dim ond i blant gweithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed.

Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg hefyd y bwriad yw y bydd disgyblion yn dechrau dychwelyd i'r ysgol o ddydd Llun, 22 Chwefror ond mae hyn yn dibynnu ar gyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws yn parhau i ostwng.

Mae'r Gweinidog Addysg hefyd wedi dweud y bydd dysgwyr yn dychwelyd i ysgolion cam wrth gam, gan ddechrau gyda'r dysgwyr ieuengaf mewn ysgolion cynradd.

Dywedodd y Cyngh. Phyl Davies, Aelod Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo: "Rwy'n croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru. Er bod sefyllfa iechyd y cyhoedd wedi gwella ar draws Cymru, mae angen cymryd camau gofalus oherwydd rydym yn gwybod y gall y sefyllfa newid yn gyflym iawn.

"Yn yr un modd â Llywodraeth Cymru, rydym hefyd wedi ymrwymo i addysgu a dysgu wyneb yn wyneb cyn gynted â phosibl ond dim ond pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

"Mae'r neges gan Lywodraeth Cymru yn para i fod yn glir – bydd dychwelyd i'r ysgol i'n dysgwyr ddim ond yn bosibl os yw'r cyfraddau trosglwyddo yn para i ostwng a bod amodau iechyd y cyhoedd yn caniatau iddynt ddychwelyd.

"Rydym yn dal i fod mewn sefyllfa ddifrifol felly mae'n hanfodol ein bod i gyd yn dilyn y cyngor i aros gartref a diogelu ein gwasanaeth iechyd.

"Bydd ysgolion yn parhau i fod ar agor ond dim ond ar gyfer plant gweithwyr hanfodol yn ogystal â dysgwyr sy'n agored i niwed lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod plant yn aros gartref lle bynnag y bo modd, gan mai dyma'r lle mwyaf diogel i bawb.

"Ein blaenoriaeth yw diogelwch a lles ein dysgwyr a staff yr ysgol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion, gan eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn a'u helpu i gynllunio ar gyfer croesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Tan hynny, bydd dysgu ar-lein ym Mhowys yn parhau hyd nes y clywir yn wahanol.

“Hoffwn ddiolch i ysgolion am eu hymdrechion parhaus i gefnogi disgyblion yn ystod y cyfnod anodd hwn a hoffwn hefyd ddiolch i rieni am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod digynsail hwn o darfu ar ein hysgolion.”

DIWEDD

MR 1442

January 29, 2021

For Immediate Release

Online learning to continue for Powys schools

Schools across the county will continue with online learning until February half term, Powys County Council has said.

Today (Friday, January 29), Education Minister Kirsty Williams confirmed that the current arrangement for schools in Wales will remain in place up until the end of half term.

Schools will still be open but only for children of critical workers and vulnerable learners.

The Education Minister also confirmed they plan for pupils to begin returning to school from Monday, February 22 but this depends on coronavirus transmission rates continuing to fall.

The return of learners to schools will also be a phased approach, the Education Minister also said, starting with the youngest learners in primary schools.

Cllr Phyl Davies, Cabinet Member for Education and Property, said: “I welcome the Welsh Government's decision. Although the public health situation has improved across Wales, a caution approach is still required because we know that the situation can change very quickly.

“Like the Welsh Government, we are also committed to face-to-face teaching and learning as soon as possible but only when it is safe to do so.

“The message remains clear from the Welsh Government – a return to school for our learners will only be possible if the transmission rate continues to fall and public health conditions allow their return.

“We are still in a serious situation so it is vital that we all follow the advice to stay at home and protect our health service.

“Schools will continue to remain open but only for children of critical workers as well as vulnerable learners where absolutely necessary. However, it is important that children remain at home wherever possible, as this is the safest place for everyone.

“Our priority is the safety and wellbeing or our learners and school staff. We will continue to work with our schools, supporting them during these difficult times and help them plan for the return of pupils when it is safe to do so. Until then, online learning in Powys will continue until further notice.

“I would like to thank schools for their ongoing efforts to support pupils during this difficult time and I would also like to thank parents for their patience and co-operation during this unprecedented period of disruption to our schools.”

ENDS